CHIRK TOWN COUNCIL
CYNGOR TREF Y WAUN

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

CYNGOR TREF Y WAUN
Mae swydd wag ar gyfer
'ASIANT CYMUNEDOL'
16 awr yr wythnos
Cyflog £8.75 yr awr yn ogystal â chostau teithio

- Ydych chi wedi ymrwymo i gefnogi pobl hŷn ddiamddiffyn ac ynysig sy'n byw yn Y Waun *a'r ardaloedd cyfagos*
- Oes gennych chi 16 awr yr wythnos i sbario?
- Ydych chi'n byw/ adnabod ardal Y Waun yn dda?
- Oes gennych chi ddiddordeb mewn cyfle cyflogaeth lleol hyblyg y gallwch ffitio o amgylch eich ymrwymiadau eraill?

Os ydych wedi ateb yn gadarnhaol i'r uchod .....

Mae Cyngor Cymuned Y Waun yn chwilio am Asiant Cymunedol i weithredu o fewn Y Waun a'r ardaloedd cyfagos.
Bydd hyfforddiant a chefnogaeth lawn ar gael, ond mae'n rhaid i chi adnabod yr ardal yn dda.
Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gallu ymgysylltu'n rhagweithiol gyda, a chefnogi pobl hŷn yn y gymuned yn aml ar sail un i un.
Mae'n rhaid i chi feddu ar sgiliau llafar a chyfathrebu ardderchog a gallu datrys problemau.
Rhaid bod yn gallu defnyddio cyfrifiadur a gwybodaeth sylfaenol o word/excel, er y gellir darparu hyfforddiant os bydd angen.
Siaradwr Cymraeg yn ddymunol neu'n meddu ar ddealltwriaeth o bwysigrwydd yr iaith Gymraeg a'r diwylliant
Bydd y swydd yn amodol ar wiriad GDG

Mae Asiantau Cymunedol yn gweithio i gysylltu pobl yn eu hardal i'r gwasanaethau a'r cymorth maent ei angen a helpu pobl hŷn i ddod o hyd i weithgareddau neu wasanaethau y byddent yn eu mwynhau neu fyddai'n ddefnyddiol iddynt.

Mae gwneud y gorau o weithgareddau a gwasanaethau lleol yn ffordd dda o gadw'n heini, actif ac annibynnol, ond nid yw pawb yn gwybod beth sydd ar gael. Efallai y bydd angen ychydig bach o gymorth ar bobl â phroblemau iechyd neu anawsterau eraill i gael mynediad ac elwa o weithgareddau a gwasanaethau sydd ar gael i bawb. Bydd Asiantau Cymunedol yn datblygu perthynas gyda sefydliadau fel yr Heddlu, SCCH, y Gwasanaeth Tân, y Gwasanaeth Ambiwlans, meddygon teulu, llyfrgelloedd lleol a grwpiau tai i sicrhau bod mwy o bobl ddiamddiffyn ac anghysbell yn cael mynediad at y cymorth a ddarperir.

- Rheoli llinell: Bydd deiliad y swydd yn atebol i'r Clerc , Cyngor Tref y Waun

I gael ffurflen gais/ mwy o wybodaeth am y swydd, cysylltwch â **Shaun Jones, Clerc i Gyngor Tref y Waun** chirk.towncouncil@btinternet.com 01691 772596

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Gorffennaf 23, 2018